


Teithiau Byr



Lydstep/Skrinkle

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 1.6 milltir (2.7 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth pentref Lydstep 349/359,
maes parcio.

Cyfeirnod map: SS085982

**Dewch i archwilio ceudyllau
cyfareddol a chlogwyni
trawiadol...**

Chwiliwch am: Gwartheg (rhan o
brosiect pori arfordirol), golygfeydd o
garreg galch, ceudyllau.

O dan bentir Lydstep, a thu hwnt, mae
ceudyllau enwog Lydstep, y dylid eu
harchwilio pan fydd y llanw'n isel yn
unig. Mae'r holl dir uwchlaw'r ogofau,
a'r ogofau eu hunain, yn eiddo i'r
Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae
Gwylanod y graig, gweilch y penwaig
a gwylanod (penwaig) gan fwyaf, yn
nythu yma, gyda'r jac-y-do
hollbresennol. Efallai y bydd morloi'n
geni eu rhai bach yn yr Hydref yn yr
ogofau ac mae merlod yn pori rhostir
yr arfordir.

Mae'r clogwyni'n drawiadol ar y darn
hwn o'r arfordir, ym mhen dwyreiniol
Skrinkle Haven chwiliwch am
Ddrysau'r Eglwys, arch fawr o garreg
galch rhwng y Porthladd a'r cildraeth
caregog. Gorwedd Skrinkle Haven ar
y ffin rhwng yr Hen Dywodfaen Coch
a'r Garreg Galch Carbonifferaidd.

Mae Libby Taylor, Uwch Barcmon y De
gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro wedi cerdded y daith
hon ac mae'n dweud: "Taith hyfryd i
weld blodau gwyllt a phili-palaod yn y
Gwanwyn. Mae yna forlin garw gyda
chwythdyllau, bwâu, ogofau ac, ym
Mhen Lydstep (sy'n eiddo i'r
Ymddiriedolaeth Genedlaethol), y cyfle

i weld merlod yn pori fel rhan o
gynllun cadwraeth ar y cyd rhwng
Awdurdod y Parc a'r Ymddiriedolaeth
Genedlaethol."

Cymeriad: Cylch cerdded gwastad
ar gopa'r clogwyni i Lydstep,
graddiannau serth i Skrinkle, da byw.

Mwy o wybodaeth: Noder bod y
clogwyni uchod traeth Skrinkle yn
ansefydlog iawn. mynediad i
gerddwyr i traeth Skrinkle ar gau
oherwydd ansefydlogrwydd y
clogwyni.

